# Cofrestrfa Tir EF
## Chwiliad mynegai enwau perchnogion – tystiolaeth hunaniaeth

Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

### 1 Eich manylion

Enw llawn: ____________________

Cyfeiriad presennol: ____________________

____________________

Rhif ffôn: ____________________

Dyddiad geni: DD/MM/BB

Rwyf wedi byw yma am ____flynedd/blynedd/mlynedd a _____ mis

Atodwch lun yma

Atodwch lun maint pasbort diweddar (o fewn y tri mis diwethaf) ohonoch yma

Os yw'n briodol, rhestrwch unrhyw gyfeiriad arall yr ydych wedi byw ynddo yn ystod y pum mlynedd diwethaf a pha mor hir y buoch yn byw ym mhob cyfeiriad

____________________

____________________

____________________

____________________

*Ffoniwch 0800 0283 404 os cewch anhawster yn darparu'r wybodaeth hon.*

### 2 Enw'r perchennog yr hoffech chwilio yn ei erbyn

____________________

____________________

### 3 Tystiolaeth o'ch hunaniaeth

Rwy'n amgáu

☐ copi o un ddogfen o restr A ***neu***

☐ dwy ddogfen wreiddiol o restr B yn dangos eich cyfeiriad presennol ond dim mwy nag un o bob math.

**Rhestr A**
- Tudalen biodata pasbort llawn dilys (y dudalen gyda'ch llun arni)
- Trwydded yrru ar ffurf cerdyn llun y DU, yr UE, Ynys Manaw, Ynysoedd y Sianel gyfredol (nid trwydded dros dro)

**Rhestr B**
- Bil cyfleustod llai na thri mis oed (nid yw biliau rhyngrwyd yn dderbyniol)
- Bil treth gyngor ar gyfer y flwyddyn hon
- Datganiad morgais ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf a gwblhawyd

### 4 Llofnod y ceisydd yn adran 1

Rwy'n tystio bod y wybodaeth uchod yn wir

____________________

Dyddiad DD/MM/BB

*(Diwygiwyd 05/24)*

## Gwneud cais ar ran rhywun arall

Os ydych yn gwneud cais ar ran rhywun arall, megis perthynas, bydd angen ichi ddarparu eich gwybodaeth chi, nid gwybodaeth yr unigolyn yr ydych yn gwneud cais ar ei ran.

Nid oes angen ichi ddarparu tystiolaeth o hunaniaeth ar gyfer y bobl rydych yn gweithredu ar eu rhan. Fodd bynnag, rhaid ichi ei wneud yn glir ar ran pwy rydych yn gweithredu.

Ni chaiff eich cais ei dderbyn oni bai eich bod wedi darparu tystiolaeth ddogfennol ar gyfer yr unigolyn yr ydych yn gweithredu ar ei ran sy'n dangos bod gennych hawl i weithredu ar ei ran. Gallai hyn fod yn gydsyniad ysgrifenedig wedi ei lofnodi, neu ryw fath arall o dystiolaeth ddogfennol megis pŵer atwrnai neu orchymyn llys.

## Diogelu data

Mae Cofrestrfa Tir EF yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth Diogelu Data'r DU. Gall gadw a rhannu'r wybodaeth gyda'r canlynol:

— adrannau eraill y llywodraeth,
— cyrff gorfodi'r gyfraith a rheoleiddio gan gynnwys sefydliadau gwrth-dwyll penodedig o dan adran 68 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2007.

Mae hyn yn helpu i atal a chanfod troseddau megis twyll eiddo.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cofrestrfa Tir EF yn defnyddio data personol, gweler ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

Ni fydd y wybodaeth yn y ffurflen hon ac mewn unrhyw dystiolaeth gefnogol ar gael i'r cyhoedd. I gael rhagor o wybodaeth, gweler rheol 133 (archwilio a chopïo) o Reolau Cofrestru Tir 2003 ar GOV.UK. Mae hyn oherwydd, o dan reol 133 o Reolau Cofrestru Tir 2003, mae gwybodaeth o'r fath wedi ei heithrio o hawl y cyhoedd i archwilio.